| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **28 Chwefror 2017** |
| **TEITL:** | **Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg – Cais am dystiolaeth** |
| **AWDUR:** | **Debbie Anne Williams Jones**<br>**(Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno crynodeb drafft o ymateb arfaethedig Cyngor Gwynedd i ddatganiad Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes 'Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg – Cais am dystiolaeth'** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae'r Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi cyhoeddi eu bwriad i ystyried diwygio Mesur y Gymraeg 2011. Drwy gyfrwng y Mesur, sicrheir:

- statws swyddogol i'r iaith
- swydd Comisiynydd y Gymraeg
- fframwaith a chyfundrefn safonau
- rhyddid i bobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn amserol i ystyried y gwersi a ddysgwyd hyd yma yn sgil pasio'r Mesur 5 mlynedd yn ôl, a lle bo hynny'n addas, i gyflwyno gwelliannau a newidiadau, gan ystyried a yw'r cydbwysedd rhwng rheoleiddio gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi'r Gymraeg drwy weithgareddau hybu a hyrwyddo defnydd yn gywir. Hyn oll er mwyn cyflawni'r uchelgais o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

1.3 Ar 31 Ionawr 2017, gwnaeth Alun Davies AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ddatganiad yn nodi ei fwriad i gyhoeddi Papur Gwyn i ymgynghori ar ddarpariaeth am Bil y Gymraeg newydd mewn da o bryd i gynnal trafodaeth gyhoeddus dros yr haf. Golyga hyn fod cyfnod o ymgysylltu cynnar anffurfiol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid wedi cychwyn, er mwyn casglu tystiolaeth gychwynnol i'r Papur Gwyn hwnnw.

1.4 Yn ei ddatganiad, mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn gofyn i bobl roi ystyriaeth i'r prif faterion canlynol:

- Beth yw eich profiad neu farn o'r gyfundrefn safonau? Yn arbennig y prosesau o osod a gorfodi'r safonau, a'ch profiad o weithredu neu baratoi i weithredu'r safonau o fewn eich corff

- Mae rôl Comisiynydd y Gymraeg yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio a chyfrifoldebau am hybu a hyrwyddo defnydd yr iaith. Ydi'r cydbwysedd yn gywir?
- Beth yw eich profiad neu farn am y trefniadau presennol am hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg. Hoffwn glywed yn arbennig eich barn am bwy ddylai fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg, tra'n cadw mewn cof y dryswch all godi ble mae nifer o gyrff yn gweithredu yn yr un maes.

**2. BETH YW EICH PROFIAD NEU FARN AM Y GYFUNDREFN SAFONAU?**

2.1 Yn y lle cyntaf, rhaid cydnabod fod sefyllfa Cyngor Gwynedd yn unigryw ac felly'n wahanol i ran fwyaf o gynghorau Cymru, gan mai iaith weinyddol fewnol y Cyngor yw'r Gymraeg, a defnyddir yr iaith yn naturiol yng ngwaith dyddiol y Cyngor. Yr hyn a wna'r Safonau yw gosod isafswm ar gyfer darpariaeth Gymraeg, a'r gwirionedd yw fod yr isafswm a osodir yn rhy isel i gyfarch ymrwymiad ac uchelgais cyffredinol Cyngor Gwynedd ar gyfer yr iaith Gymraeg.

2.2.1 Bu'r gwaith paratoadol ar gyfer y Safonau Iaith ar Gyngor Gwynedd (yn yr un modd ag Awdurdodau Lleol eraill) yn feichus, gyda'r angen am:

- hunan-asesiad
- ymateb i ymgynghoriad ar y safonau drafft
- Ymchwiliad Safonau(holiadur 136 cwestiwn)
- ymateb i'r ymgynghoriad ar y Polisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg
- ymateb i'r ymgynghoriad ar yr hysbysiad cydymffurfio drafft
- derbyn 151 Safon yn yr hysbysiad terfynol

Mae'r dasg o godi ymwybyddiaeth am y Safonau Iaith o fewn y sefydliad yn parhau.

2.3 Yn achos Cyngor Gwynedd, ble ystyriwyd y Safonau fel isafswm, ac nad oeddent yn adlewyrchiad digonol o ymrwymiad y Cyngor tuag at y Gymraeg; er mwyn diogelu'r ymrwymiad hwnnw, bu'n ofynnol i'r Cyngor lunio a mabwysiadu Polisi Iaith o'r newydd er mwyn gwarchod uchelgais y Cyngor ar gyfer y Gymraeg, ynghyd â'r ymrwymiad i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg.

2.4 Yn sicr, gobaith Cyngor Gwynedd oedd y byddai'r Safonau yn rhoi mwy o le i allu dylanwadu a thynnu Cynghorau eraill yn agosach at ein ffordd ni o weithredu, ond gall y Safonau wneud ymdrechion i gael mwy o wasanaethau yn Gymraeg yn brofiad anodd a rhwystredig (yn yr un modd a'r Cynlluniau Iaith gynt). Un enghraifft o hynny yw amwysedd rhai o'r Safonau, sydd yn arwain at ddehongliadau gwahanol ohonynt gan sefydliadau gwahanol. Yn ddiweddar, cawsom brofiad o amrywiol ddehongliadau o 'ddogfen gyhoeddus', ac felly anghysondeb ac anghytundeb o'r angen i ddarparu rhai dogfennau yn ddwyieithog ai peidio. Safbwynt Cyngor Gwynedd wrth gwrs oedd bod angen dogfennaeth yn ddwyieithog, ac yn y diwedd cafwyd y maen i'r wal, ond mae'r amwysedd yn golygu yr angen i ni ddylanwadu a phwyso ar sefydliadau eraill yn barhaus yn hytrach na bod yr angen yn eglur i bawb. At hyn, mae eithriadau sydd wedi eu caniatáu i rai Safonau, neu'r ffaith bod rhai Cynghorau wedi eu heithrio o rai Safonau sylfaenol, yn golygu na ellir ar brydiau gael cytundeb ar pryd y dylid cynhyrchu dogfennaeth yn ddwyieithog.

2.4 Mae nifer o'r Safonau yn y maes polisi yn disgwyl i ni fedru tystiolaethu y modd yr ydym yn prif-ffrydio'r Gymraeg. Gallai hynny arwain at yr angen i ddogfennu pethau mewn ffyrdd nad ydym wedi arfer â gwneud er mwyn dangos ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau Polisi. Mae creu cyfundrefn er mwyn bodloni gofynion rheoleiddiwr sydd ddim, mewn gwirionedd, yn ychwanegu gwerth i ddinasyddion, yn groes i egwyddorion Cyngor Gwynedd (drwy Ffordd Gwynedd).

2.5 At hyn, mae'r dull yr ydym yn gorfod profi a chofnodi'r modd yr ydym yn cydymffurfio gyda'r Safonau yn weinyddol feichus, mewn cyfnod lle bo adnoddau yn brin, ac yn codi'r cwestiwn pa werth gwirioneddol y mae'n ychwanegu o safbwynt gwella ansawdd, arlwy ac argaeledd gwasanaethau Cymraeg i'r dinesydd. Mae'r broses o gynnal ymchwiliadau yn enghraifft dda o hynny, gan y cymer 3 mis (os y cedwir at yr amserlen a osodwyd gan y Comisiynydd) i gyflawni un ymchwiliad, ac a ydyw amserlen a phroses mor fiwrocrataidd (sydd wedi ei gosod yn y Mesur) yn annog pobl i gwyno am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg , ac argyhoeddi yr achwynydd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn sgil gweithredu'r ymchwiliad.

2.6 Mae proses y Comisiynydd o ymdrin â chwynion hefyd yn peri anhawster. Digwydd hynny yn sgil y ffaith nad yw gohebiaeth y Comisiynydd yn cynnwys manylion am y gwyn, er mwyn ein galluogi i ymchwilio ac ymateb i'r gwyn honno'n benodol. Yn hytrach, rhaid ymchwilio i'r holl wasanaeth, ac mewn sefydliad mor fawr, gall hynny fod yn anhwylus a beichus iawn. Mae diffyg rhannu gwybodaeth a chyfathrebu hefyd ynghlwm â'r broses; enghraifft o hynny yw'r ffaith fod amserlen ymchwiliad y Comisiynydd bron 6 mis yn hwyr, ac nad oes unrhyw gyfathrebu nac esboniad wedi ei dderbyn am yr oedi.

2.7 Mae'r Safonau sydd yn ymwneud â chyfarfodydd a hawl unigolion i gyfrannu yn Gymraeg yn gallu peri anhawster i Gyngor Gwynedd. Mae Polisi Iaith y Cyngor yn nodi bod yn rhaid i holl gyfarfodydd gael eu cynnal yn Gymraeg, gydag offer cyfieithu ar gyfer y rhai hynny sydd eisiau cyfrannu yn Saesneg. Golyga hyn fod y Safonau yn gwbl groes i arferiad y Cyngor, ac felly nid ydym yn cyfarwyddo'r staff i weithredu yn unol â'r Safonau. Yn hytrach na gofyn os bydd rhywun yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg, byddwn yn gofyn os dymuna rhywun gyfrannu yn Saesneg, er mwyn darparu offer cyfieithu ar y pryd ar eu cyfer.

2.8 Yn yr un modd, mae unrhyw Safon sydd yn gofyn i'r Cyngor 'hybu' y gwasanaeth Cymraeg yn peri anhawster gan fod holl wasanaethau'r Cyngor yn ddwyieithog ac yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg. O ganlyniad, byddwn yn hyrwyddo'r gwasanaeth ei hun, yn hytrach na chyfrwng iaith y gwasanaeth. Credwn bod mwyafrif dinasyddion Gwynedd yn ymwybodol fod holl wasanaethau'r Cyngor ar gael yn ddwyieithog.

## 3. YDI'R CYDBWYSEDD RHWNG RHEOLEIDDIO A HYBU A HYRWYDDO YN GYWIR?

3.1 Credir fod rôl Comisiynydd Y Gymraeg ers ei sefydlu wedi gogwyddo mwy tuag at reoleiddio yn hytrach na hybu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, ac nid yw'r Comisiynydd wedi gallu uno'r ddwy swyddogaeth yma yn yr un modd ac y llwyddwyd i wneud hynny gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

3.2 Mae'n anffodus fod swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg wedi ei thanseilio reit ar y cychwyn pan wrthodwyd y Safonau Iaith, ac mae hynny wedi cael effaith ar ddelwedd y Comisiynydd, ac nad oes ganddi yr un hygrededd ymddangosiadol a'r Comisiynydd Plant neu'r Comisiynydd Pobl Hŷn er enghraifft.

3.3 Er hynny, fe ddylai'r Safonau fod yn arf cadarnhaol ar gyfer newid, ond mae'r holl ddisgwrs o'u cwmpas (ers iddynt gael eu sefydlu) yn negyddol, ac mae'r pwyslais a'r anogaeth a roddir i 'gwyno' am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg yn ychwanegu at y negyddiaeth yma. Onid oes hefyd eisiau cyfle a llwyfan i gofnodi, dathlu a rhannu arfer dda?

3.3 Sgil effaith y buddsoddiad sylweddol yn y broses reoleiddio, yw mai prin yw'r adnoddau efallai ar gyfer hybu a hyrwyddo, a chynnig cefnogaeth ac arweiniad ymarferol i sefydliadau cyhoeddus ddatblygu a atgyfnerthu'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir ganddynt.

3.4 Mae'r elfen o gydweithio a gallu cynnig datrysiadau creadigol i sefyllfaoedd heriol pan fo sefydliadau yn dod ynghyd i ddarparu gwasanaethau, neu wrth allanoli gwasanaethau cyhoeddus yn gofyn am arweiniad a chefnogaeth arbenigol gan Gomisiynydd y Gymraeg i arfogi sefydliadau cyhoeddus i wneud penderfyniadau ystyrlon am y modelau amgen o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus fyddai hefyd yn gyfrwng i ddiogelu'r Gymraeg, a pha fodelau amgen (os o gwbl) fyddai'n gynwysedig o dan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae risg amlwg i'r Gymraeg os nad yw consortia, a modelau eraill a sefydlir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r Safonau Iaith.

## 4. BETH YW EICH PROFIAD NEU FARN AM Y TREFNIADAU PRESENNOL AM HYBU A HYRWYDDO DEFNYDD Y GYMRAEG?

4.1 Mae dwy elfen wahanol i hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yng Ngwynedd, sef ymrwymiad Cyngor Gwynedd i hyrwyddo'r Gymraeg a welir yng Nghynllun Strategol y Cyngor, yn y modd y gosodir y disgwyliad ar holl weithlu'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r Polisi Iaith, yn ogystal â'r Safon Hybu; ac yn ail drwy hunaniaith, sef Menter Iaith Gwynedd sydd yn gweithredu nifer o brosiectau a ariennir drwy grant gan Lywodraeth Cymru yn y meysydd Teulu, Plant a Phobl Ifanc, Cymunedau, Gweithleoedd a Gwasanaethau er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

4.2 Mae Cyngor Gwynedd a hunaniaith fel ei gilydd yn croesawu ymrwymiad a gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef uchelgais o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050, ac yn credu mai cyfrifoldeb y Llywodraeth yw gosod y fframwaith a'r cyfeiriad polisi ar gyfer yr iaith Gymraeg. Yn yr un modd, credir mai cyfrifoldeb y Llywodraeth yw'r fframwaith fonitro a sicrhau atebolrwydd am weithredu yn unol a'r cyfeiriad polisi a nodir yn Miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

4.3 Fodd bynnag, ar wahân i weithredu'r rôl oddi fewn i'r sefydliad, nid yw'r Llywodraeth o bosib yn y lle gorau i weithredu'r rôl o hybu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg ledled Cymru. Gofyn hynny am rinweddau megis hyblygrwydd a chreadigrwydd, ymateb i angen lleol, cefnogaeth ymarferol, treialu, ymddiriedaeth ayyb. Oni fyddai corff hyd braich o Lywodraeth Cymru yn cyflawni'r rolau hyn yn fwy effeithiol?

4.4 At hyn, yn sgil y ffaith fod rôl bresennol Comisiynydd y Gymraeg yn gogwyddo fwy tuag at reoleiddio yn hytrach na hybu a hyrwyddo, mae bwlch o safbwynt cynnig arweiniad, cymorth a chefnogaeth ymarferol i sefydliadau wneud mwy i hybu a hyrwyddo, yn ogystal a darparu mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Amlygir y bwlch hwn y niffyg unrhyw weithgareddau sydd yn dod â Swyddogion Iaith sefydliadau cyhoeddus ynghyd i drafod y Gymraeg, y Safonau, cyhoeddiadau a dogfennau arweiniol ayyb. Elfen yr oedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac WLGA (drwy Rhwydiaith) yn ei wneud yn gyson yn y gorffennol.

4.5 Mae'r bwlch hwn hefyd yn amlwg yng nghyd-destun y sector breifat, ac i raddau llai y trydydd sector, ac mae diffyg rhannu gwybodaeth am waith y Comisiynydd yn y meysydd hyn, a'r berthynas gyda gwaith y Mentrau Iaith, neu gyfleoedd i gydweithio eto'n cadarnhau nad yw rhai agweddau o'r trefniadau presennol yn hwyluso gweithredu a chydweithio, gan felly sicrhau'r canlyniadau gorau i'r iaith Gymraeg.

**5. CAMAU NESAF**

5.1 Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn cynnig cyfle i randdeiliaid drafod y cwestiynau uchod gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru neu gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig erbyn 31 Mawrth 2017.

5.2 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu cyfarfodydd i drafod y cwestiynau uchod, a chynhelir y cyfarfod yn y gogledd yng Nghyffordd Llandudno ar 8 Mawrth 2017. Bwriedir sicrhau dirprwyaeth o'r Cyngor i fynychu'r cyfarfod hwn, gan ddefnyddio'r drafodaeth i fireinio ymateb terfynol y Cyngor i'r cwestiynau i'w cyflwyno i Llywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2017.

**6. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r aelodau:

- drafod a chyflwyno unrhyw sylwadau / enghreifftiau a ystyrir yn berthnasol i'r cwestiynau uchod
- dderbyn cynnwys yr adroddiad a'r camau nesaf.